LLGC NLW
LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES

Archif Wleidyddol Gymreig
Welsh Political Archive



# MANIFFESTO
# MANIFESTO
# 54

**ADOLYGIAD** | REVIEW OF 2022-2023

RHIFYN PEN-BLWYDD 40
40
40 ANNIVERSARY EDITION

# YR ARCHIF WLEIDYDDOL GYMREIG
# THE WELSH POLITICAL ARCHIVE

**Sefydlwyd yr Archif Wleidyddol Gymreig ym 1983 i gydlynu'r gwaith o gasglu tystiolaeth ddogfennol o bob math am wleidyddiaeth yng Nghymru. Mae'n casglu cofnodion a phapurau pleidiau gwleidyddol, gwleidyddion, sefydliadau lled-wleidyddol, ymgyrchoedd a grwpiau pwyso; taflenni, pamffledi ac effemera printiedig eraill; posteri a ffotograffau; gwefannau a thapiau o raglenni radio a theledu. Nid yw ei gwaith wedi'i gyfyngu i adran benodol yn y Llyfrgell.**

**Ar ei phen-blwydd yn 40 oed rydym yn falch o edrych yn ôl ar bopeth y mae'r Archif Wleidyddol Gymreig wedi'i gyflawni yn ystod 2022-2023 ac edrychwn ymlaen at bopeth sydd i ddod dros y 40 mlynedd nesaf.**

The Welsh Political Archive was set up in 1983 to co-ordinate the collection of documentary evidence of all kinds about politics in Wales. It collects the records and papers of political parties, politicians, quasi-political organisations, campaigns and pressure groups; leaflets, pamphlets and other printed ephemera; posters and photographs; websites and tapes of radio and television programmes. Its work is not restricted to a specific department within the Library.

On its 40th Anniversary we're proud to look back on all that the Welsh Political Archive has achieved during 2022-2023 and look forward to all that is to come over the next 40 years.



**Yn unol â Pholisi Datblygu Casgliadau Llyfrgell Genedlaethol Cymru, mae'r Archif Wleidyddol Gymreig yn casglu papurau personol gwleidyddion sydd wedi chwarae rhan bwysig ym mywyd y genedl ac unigolion sydd â phroffil uchel am ymgyrchu ar faterion cenedlaethol neu ryngwladol.**

**Rydym yn casglu:**

- **papurau Aelodau Seneddol San Steffan, Aelodau o Senedd Cymru, Aelodau Senedd Ewrop ac Arglwyddi os ydynt, er enghraifft, wedi dal swyddi fel Ysgrifennydd Gwladol, arweinydd plaid, gweinidog, uwch gadeirydd pwyllgor; ni fyddwn fel arfer yn casglu papurau aelodau etholedig eraill na phapurau etholaethol**
- **archifau cenedlaethol pleidiau gwleidyddol ond nid ydym bellach yn casglu papurau rhanbarthau na changhennau pleidiau gwleidyddol**
- **archifau grwpiau pwyso cenedlaethol a grwpiau sy'n ymgyrchu ar faterion cenedlaethol**
- **effemera etholiad o bob etholaeth yng Nghymru ar gyfer etholiadau cenedlaethol a refferenda gan gynnwys etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd. Nid ydym yn casglu deunydd sy'n ymwneud ag etholiadau i awdurdodau lleol.**

In accordance with The National Library of Wales' Collection Development Policy, The Welsh Political Archive collects the personal papers of politicians who have played an important role in the life of the nation and individuals with a high profile for campaigning on national or international issues.

We collect:

- the papers of Members of the UK Parliament, Members of the Senedd, Members of the European Parliament and Lords if they have for example held positions such as Secretary of State, party leader, minister, senior committee chair; we do not usually collect the papers of other elected members or constituency papers
- the national archives of political parties but we no longer collect the regional or branch papers of political parties
- archives of national pressure groups and groups which campaign on national issues
- election ephemera from all constituencies in Wales for national elections and referenda including elections for Police and Crime Commissioners. We do not collect material related to elections to local authorities.

## Staff yr Archif Wleidyddol Gymreig

## Welsh Political Archive Staff

**Rob Phillips**
**Archifydd: Yr Archif Wleidyddol Gymreig**




Rob Phillips
Archivist: The Welsh Political Archive

**Rhys Davies**
**Archifydd Cynorthwyol: Yr Archif Wleidyddol Gymreig**




Rhys Davies
Assistant Archivist: The Welsh Political Archive

**Siân Smith**
**Archifydd Cynorthwyol: Papurau Ann Clwyd**



Siân Smith
Assistant Archivist: Ann Clwyd Papers

**Miidong Daloeng**
**Swyddog Prosiect Dadgoloneiddio Archifau**



Miidong Daloeng
Archives Decolonisation Project Officer

# **DERBYNIADAU NEWYDD**
# NEW ACQUISITIONS

**Mae'r Archif Wleidyddol Gymreig wedi llwyddo i gaffael nifer o archifau diddorol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.**

The Welsh Political Archive has been successful in acquiring a number of interesting archives during the past year.

## Peintiad olew o Mark Drakeford gan David Griffiths


**Ar ddiwedd 2022 prynodd y Llyfrgell baentiad olew o arweinydd Llafur Cymru a Phrif Weinidog Cymru, Mark Drakeford AS gan yr artist enwog David Griffiths. Mae gan y Llyfrgell eisoes nifer o beintiadau o wleidyddion gan Griffiths gan gynnwys cyn arweinydd Llafur Cymru a'r Prif Weinidog Rhodri Morgan, Llywydd y Senedd Elin Jones, arweinwyr Plaid Cymru Gwynfor Evans a Dafydd Wigley a'r cyn Arglwydd Ganghellor yr Arglwydd Elwyn Jones.**

## Oil painting of Mark Drakeford by David Griffiths

In late 2022 the Library purchased an oil painting of Welsh Labour leader and First Minister, Mark Drakeford MS by the renowned artist David Griffiths. The Library already holds a number of paintings of politicians by Griffiths including former Welsh Labour leader and First Minister Rhodri Morgan, Senedd Presiding Officer Elin Jones, Plaid Cymru leaders Gwynfor Evans and Dafydd Wigley and former Lord Chancellor Lord Elwyn Jones.



Peintiad olew o Mark Drakeford gan David Griffiths
Oil painting of Mark Drakeford by David Griffiths


man in the world where
the Scots reputation for
business efficiency does not hold
good - except ours. The House
of Lords think very little of
you as a sensible wise race
they think you very much
overrated as business men -
they think you cannot be
trusted to look after your own
affairs telling alone those of others.
You think you understand
your own land question.
Well you don't. It is Sir
Frederick Banbury & Ld
Lansdowne.

Scottish stock very
low in the House of Lords.
The bears have had all their
own way in that stock there.

Wool says this when electioneering: Oh ho
Buy Scotland you at polls at 4
high price & sell her you in House
of Lords at the cheapest - &
make Scotsmen you pay the difference.

After the way House of Lords
treated Scotland cannot imagine
how a Conservative candidate
dare face an audience of Scotsmen
in face of that arrogant body
that has treated their country so
disdainfully

Two Welsh Tories - put
them both in a wheelbarrow -
We shall do so this time &
tip them somewhere safe.
Found we have no use for them.

NLW MS 24179A

## Llyfr nodiadau David Lloyd George

**Prynwyd llyfr nodiadau a ddefnyddiwyd gan David Lloyd George i gofnodi ei feddyliau a'i nodiadau ar gyfer areithiau yn ystod ymgyrch Etholiad Cyffredinol Rhagfyr 1910 mewn arwerthiant ym mis Medi 2022. Arweiniodd penderfyniad Tŷ'r Arglwyddi i wrthod cymeradwyo cyllideb 1909 Lloyd George – oedd yn cynnwys diwygiadau treth i ariannu taliadau nawdd cymdeithasol – at Etholiad Cyffredinol i ddatrys y gwrthdaro cyfansoddiadol yn Ionawr 1910. Cynhaliwyd etholiad arall ym mis Rhagfyr y flwyddyn honno a roddodd fandad i'r Rhyddfrydwyr gyfyngu ar bŵer Tŷ'r Arglwyddi drwy Ddeddf y Senedd 1911. Rhoddwyd y llyfr nodiadau, sydd â chlawr hardd wedi'i frodio ac sy'n cynnwys tua 80 tudalen o nodiadau ar bynciau megis treth, diwygio'r Arglwyddi ac addysg, i Arthur C. Murray, 3ydd Is-iarll Elibank (1879-1962) i ddechrau ac yn ddiweddarach fe'i rhoddwyd i Hermione Hobhouse. Ariannwyd y pryniant yn rhannol gyda grant gan Gyfeillion y Llyfrgelloedd Cenedlaethol.**
**NLW MS 24179A.**

## David Lloyd George notebook

A notebook used by David Lloyd George to record his thoughts and notes for speeches during the December 1910 General Election campaign was purchased at auction in September 2022. The refusal of the House of Lords to endorse Lloyd George's 1909 budget which included tax reforms to fund social security payments led to a General Election to solve the constitutional standoff in January 1910. A further election was held in December of that year which gave the Liberals a mandate to restrict the power of the House of Lords through the Parliament Act 1911. The notebook, which has a beautifully embroidered cover and contains around 80 pages of notes on subjects such as tax, Lords reform and education, was initially given to Arthur C. Murray, 3rd Viscount Elibank (1879-1962) and was later gifted to Hermione Hobhouse. The purchase was part funded by a grant from the Friends of the National Libraries.
**NLW MS 24179A.**


MANIFFESTO
MANIFESTO
54

## Mwy o Bapurau John Morris

**Ym mis Awst 2022 trosglwyddodd yr Arglwydd Morris o Aberafan dri blwch mawr o archifau i'r Llyfrgell. Mae'r deunydd yn cynnwys areithiau, gohebiaeth, papurau yn ymwneud ag Ymchwiliad Chilcott a chyhoeddi ei hunangofiant, llythyrau at Keir Starmer yn ymwneud â pholisi Llafur, datganoli cyfiawnder i Gymru, Cytundeb Masnach Rydd Awstralia ac Addoediad y Senedd ym mis Medi 2019.**
**Ychwanegiad at**
**John Morris Papers.**

## Further John Morris Papers

In August 2022 Lord Morris of Aberavon transferred three large boxes of archives to the Library. The material includes speeches, correspondence, papers relating to the Chilcott Enquiry and the publication of his autobiography, letters to Keir Starmer relating to Labour Policy, devolution of justice to Wales, the Australia Free Trade Agreement and the Prorogation of Parliament in September 2019.
Addition to the
John Morris Papers.



STEVENSON, Maggie

To: GOLD, Lord
Subject: Message from Lord Morris of Aberavon

Dear David, LORD GOLD

1. As a former minister of agriculture for Wales (among my other responsibilities as Secretary of State for 6 years), I am deeply concerned about the cumulative effect on UK agriculture and particularly in the devolved areas where animal production plays such a significant role.

2. A detailed impact assessment of FTA is required on sections and areas of the UK economy. I take a grim view of the prospects of livestock producers and hill farmers, in particular over the next 10 years.

3. The Australian imports of beef have hitherto been modest as the Asian markets have been more attractive, however "the worsening of diplomatic relations with China is already having an impact on Australian exports – over the last year there has been a 38% fall in beef exports to China" (page 95 of the NFU England & Wales Evidence.)


4. Animal welfare standards between Australia and the UK diverge widely (Page 99 ditto). This is much wider than differing uses of antibiotics. Branding, mulesing of sheep and transport standards are different (page 100). *"There is no commitment in the FTA for equivalence, only a commitment to endeavour…..* "(Page 99). This is a serious mistake by our negotiators. An important trick has been missed.

5. Meat and Livestock Australia believe that the FTA will significantly enhance Australian access to the UK Red Meat Market. (Page 89 ditto). There was a comment in an earlier document before this from an Australian minister that the meat market could increase tenfold.

6. There is critical evidence of the working of the Tariff Rate Quota (Page 90 ditto), and particularly a lack of clarity how the quota volumes have

1

John Morris Papers



THE ..
HOLIDAY FELLOWSHIP LTD.
President: CHARLES TREVELYAN, M.P. (Ex-President of the Board of Education)
Vice-President: ARNOLD S. ROWNTREE (of York)
Telephone: Speedwell, 4735
Telegrams: Holiship, Gold, London
General Secretary . . . HENRY J. STONE
Assistant General Secretary . . DOUGLAS R. BISHOP
Secretary for International Work. T. ARTHUR LEONARD

OBJECTS
To organise holiday making . . . . to provide for the healthy enjoyment of leisure, to encourage the love of the open air, and to promote social and international friendship.

Please refer to
T. ARTHUR LEONARD,
BRYN CORACH,
CONWAY,
N. WALES.
Telephone: Conway 86.

Offices: "HIGHFIELD."
GOLDERS GREEN ROAD,
LONDON, N.W. 11

5th February 1930.

My Dear Friend,

I am glad to have your letter, and to know there is a possibility of you joining our Russian party this year. I enclose particulars of same, and shall be glad to hear from you.

Unfortunately, we cannot arrange for folk to return via Berlin and Copenhagen as you suggest.

Might I ask you how you feel about the present position in Russia, and the ugly reports that we are getting? I am quite prepared to believe that these are lying inventions of interested parties over here. On the other hand, if a tithe of the reports is correct, I do not think we are justified in organizing friendly missions.

Kind regards,
Yours sincerely,

Mr. R. Silyen Roberts,
University College of North Wales,
B A N G O R.

Enc.


Papurau Mary Silyn Roberts (Archif Menywod Cymru) =
Mary Silyn Roberts Papers (Women's Archive of Wales)

## Papurau Mary Silyn Roberts

**Ym mis Gorffennaf 2022 fe wnaeth Addysg Oedolion Cymru roi un blwch o ohebiaeth a deunydd amrywiol a grëwyd ac a gasglwyd gan Mary Silyn Roberts. Mae'r papurau'n cynnwys gohebiaeth ag R. Williams Parry, Ben Bowen Thomas ac Eirene White a phapurau eraill, ac maent yn amlygu rôl Mary yn y gwaith o redeg Cymdeithas Addysg y Gweithwyr (Gogledd Cymru). Maent yn ychwanegu at bapurau Cymdeithas Addysg y Gweithwyr (Gogledd Cymru) (*Maniffesto 53*).**
**Papurau Mary Silyn Roberts (Archif Menywod Cymru) = Mary Silyn Roberts Papers (Women's Archive of Wales).**

## Mary Silyn Roberts' Papers

In July 2022 Adult Learning Wales donated 1 box of correspondence and miscellaneous material created and collected by Mary Silyn Roberts. The papers include correspondence with R. Williams Parry, Ben Bowen Thomas and Eirene White and papers and highlight the role played by Mary in the running of the Workers' Educational Association (North Wales). They complement the Workers' Educational Association (North Wales) Papers (*Manifesto 53*).
**Papurau Mary Silyn Roberts (Archif Menywod Cymru) = Mary Silyn Roberts Papers (Women's Archive of Wales).**



VISITING ORDER.

C.O. INFORMATION BUREAU

11, Adam Street,
Adelphi,
London, W.C.2.

12th April, 1919.

Dear Comrade,

In accordance with Mr. Churchill's statement regarding the release of C.Os. who have completed a two years sentence, you should have been set free from prison last week.

I should be glad if you would let me know the exact date of your release, and any other particulars which you think would be useful for our record of your case.

With best wishes,

Yours fraternally,
MARGARET MORGAN JONES.
Secretary.


Ithel Davies Papers

## Mwy o Bapurau Ithel Davies

**Rhoddwyd gohebiaeth bellach gan Ithel Davies i'r Llyfrgell ym mis Medi 2022. Mae'r papurau'n cynnwys llythyrau oddi wrth Ithel Davies at ei dad o'r carchar yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, llythyrau a anfonwyd at ei rieni gan bobl oedd wedi ymweld ag ef yn y carchar, llythyrau'n trafod gwrthwynebiad cydwybodol a chylchlythyrau gan y No-Conscription Fellowship.**
**Ychwanegiad at Ithel Davies Papers.**

## Further Ithel Davies Papers

Further correspondence of Ithel Davies was donated to the Library in September 2022. The papers include letters from Ithel Davies to his father from prison during the First World War, letters sent to his parents by people who had visited him in prison, letters discussing conscientious objection and circulars from the No-Conscription Fellowship.
Addition to the **Ithel Davies Papers.**




Glanyrafon, Mallwyd
Cemaes Road, Mont.
23/7/24

R. Davies Esq.
Sec. to the Carnarvon Labour Party

Dear Sir
Your communication of the 15th inst., reached me this morning via University College Bangor, for which I ~~am greatly obliged~~ thank you.

I am quite willing to allow my name to go forward. I have no hesitation, after weighing this matter carefully in my mind, as to what to do. I am moved by an overwhelming desire to act in a political and social capacity in the interests of the new Civilization which the Socialist movement represents. In allowing my name thus to go forward I sincerely hope that I am doing the best thing for the cause in which I believe & in behalf of the people of Wales [illegible] whom I desire to serve.
Thanking the C. Labour Party for this manifestation of goodwill I remain
Yrs fraternally Ithel Davies



CARNARVON ~~XX~~ LABOUR PARTY

11 Victoria Street,
CARNARVON.
July 19th 1924.

Mr Ithel Davies, B.A.
University College,
Bangor.

Dear Sir,

I am instructed to inform you that at a meeting of our members held last night you were nominated as a Labour Candidate to contest the Carnarvon Boroughs Parliamentary Division at the next Election.

Will you kindly inform me as soon as possible but in any case so as to reach me not later than first post next Friday whether you are prepared to allow your name to be put forward for consideration.

Yours truly,
R Davies
Secretary.

## Papurau Hywel Ceri Jones

**Ym mis Awst 2022, rhoddodd Hywel Ceri Jones, cyn bennaeth Adran Addysg a Pholisïau Ieuenctid a Chyfarwyddwr Addysg, Hyfforddiant ac Ieuenctid y Comisiwn Ewropeaidd gasgliad o'i areithiau, cyflwyniadau a phapurau ar faterion addysgol rhwng 1979 a 1993 i'r Llyfrgell. Mae'r casgliad yn llenwi 3 blwch bach ac mae rhestr gyflawn o'r areithiau ar gael ym mlwch 1.**
**Hywel Ceri Jones Papers.**

## Hywel Ceri Jones' Papers


In August 2022, Hywel Ceri Jones, former head of the European Commission's Department for Education and Youth Policies and Director for Education, Training and Youth donated a collection of his speeches, presentations and papers on educational issues between 1979 and 1993. The collection fills 3 small boxes and a complete list of the speeches is available in box 1.
**Hywel Ceri Jones Papers.**

## Mwy o Bapurau Ann Clwyd

**Rhoddodd Ann Clwyd swm sylweddol o ddeunydd i'w ychwanegu at ei phapurau yn gynnar yn 2023. Mae'r papurau'n ymwneud yn bennaf ag Irac a sefydliad Indict a'i waith yn casglu tystiolaeth am droseddau a gyflawnwyd gan Lywodraeth Irac yn erbyn ei phobl ei hun.**
**Ychwanegiad at Ann Clwyd Papers.**

## Further Ann Clwyd Papers

Ann Clwyd donated a significant amount of material to add to her papers in early 2023. The papers relate mainly to Iraq and the Indict organisation and its work in collecting evidence of crimes committed by the Iraqi Government against its own people.
Addition to the **Ann Clwyd Papers.**




Baroness Eluned Morgan Papers

## Papurau'r Farwnes Eluned Morgan

**Rhoddodd y Farwnes Eluned Morgan 3 blwch mawr o bapurau yn ymwneud â'i gwaith yn Nhŷ'r Arglwyddi ar Ddeddf Cymru 2017. Mae'r papurau'n cynnwys drafftiau anodedig o'r ddeddfwriaeth, nodiadau, drafftiau o areithiau a gohebiaeth gyda'r Arglwydd Bourne ar ran y Llywodraeth yn ogystal ag arglwyddi Llafur ac arglwyddi eraill y gwrthbleidiau. Baroness Eluned Morgan Papers.**

## Baroness Eluned Morgan Papers

Baroness Eluned Morgan donated 3 larges boxes of papers relating to her work in the House or Lords on the Wales Act 2017. The papers include annotated drafts of the legislation, notes, speech drafts and correspondence with Lord Bourne for the Government as well as Labour and other opposition peers. **Baroness Eluned Morgan Papers.**

## Llythyr oddi wrth Dewi Watkin Powell ynglŷn â diddymu'r Deddfau Uno

**Cafodd llythyr, a ysgrifennwyd gan Dewi Watkin Powell ym 1997 mewn ymateb i gwestiwn ynghylch a oedd y Deddfau Cyfreithiau yng Nghymru 1536 a 1542 yn dal mewn grym, ei roi i'r Llyfrgell ym mis Chwefror 2023 ynghyd â chyfieithiad Saesneg. NLW MS 24182D.**

## Letter from Dewi Watkin Powell regarding the repeal of the Acts of Union


A letter, written by Dewi Watkin Powell in 1997 in response to a question as to whether the Laws in Wales Acts of 1536 and 1542 were still in effect was donated to the Library in February 2023 along with an English translation. **NLW MS 24182D.**

## Deddfwriaeth y Senedd

**Trosglwyddwyd dau flwch o Ddeddfau'r Senedd a basiwyd rhwng 2018 a 2021 gan gynnwys Deddf Etholiadau Cymru (Coronafeirws) 2021 a Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 ar adnau i'r Llyfrgell yn gynnar yn 2023. Ychwanegiad at Mesurau a Deddfau Cynulliad Cenedlaethol Cymru = National Assembly for Wales Measures and Acts.**

## Senedd Legislation

Two boxes of Acts of the Senedd passed between 2018 and 2021 including the Welsh Elections (Coronavirus) Act 2021 and Curriculum and Assessment (Wales) Act 2021 were transferred on deposit to the Library in early 2023.
Addition to **Mesurau a Deddfau Cynulliad Cenedlaethol Cymru = National Assembly for Wales Measures and Acts.**


Sep 11. 1904.
Dear Crawshay Williams.
I have just receiv
your letter of Aug 10 and
sorry I missed you
the battle which
was returned
at the

12 Sept. 1904
SALISBURY HALL,
ST ALBANS.
Dear Mr. Crawshay-Williams,
I am so glad to hear
that you are going to stand
& I most heartily wish you
all success. You are fighting
a most narrow minded
reactionary fellow &
ill-mannered one.
As to my coming
for you I cannot
definitely at
during

Blenheim Palace.
Sept. 29. 1904
Dear Sir,
I am desired by Mr
Winston Churchill to say that
the Meeting will take place
tomorrow at the Reform Club
Manchester at 8 o'clock. Mr
Churchill will be glad if you
will dine with him at the
Queens Hotel, Manchester at

Eliot Crawshay-Williams Papers

## Mwy o lythyrau Eliot Crawshay-Williams

**Ym mis Rhagfyr 2022 prynodd y Llyfrgell gasgliad bach o lythyrau at Eliot Crawshay-Williams mewn ocsiwn. Mae'r pum llythyr, dyddiedig 1 Awst, 30 Awst, 11 Medi, 12 Medi a 29 Medi oddi wrth Winston Churchill a anfonwyd at Crawshay-Williams yn annog Crawshay-Williams i gynnig ei enw fel ymgeisydd Rhyddfrydol ar gyfer etholaeth Chorley i Etholiad Cyffredinol 1906. Prynwyd copïau o ohebiaeth rhwng Crawshay-Williams a Churchill yn ymwneud â thrafod cadoediad gyda'r Almaen Natsïaidd ym 1940 gan y Llyfrgell ym 1986.**
**Ychwanegiad at**
**Eliot Crawshay-Williams Papers.**

## Further letters of Eliot Crawshay-Williams

In December 2022 the Library purchased a small collection of letters to Eliot Crawshay-Williams at auction. The five letters, dated 1 August, 30 August, 11 September, 12 September and 29 September were sent from Winston Churchill to Crawshay-Williams encourage Crawshay-Williams to put his name forward as the Liberal candidate for the Chorley constituency for the 1906 General Election. Copies of correspondence between Crawshay-Williams and Churchill relating to negotiating a truce with Nazi Germany in 1940 were purchased by the Library in 1986.
Addition to the
Eliot Crawshay-Williams Papers.

## Papurau Alan Jobbins

**Derbyniodd y Llyfrgell ffeil fodrwy o bapurau a gasglwyd neu a grëwyd gan Alan Jobbins yn gynnar yn 2023, yn ymwneud yn bennaf ag ymgyrchoedd dros ddatganoli i Gymru, yr Ymgyrch Senedd i Gymru a'r Gymraeg. Derbyniwyd nifer o bosteri Plaid Cymru hefyd ac mae'r rhain wedi eu trosglwyddo i'r casgliad posteri.**
**Alan Jobbins Papers.**

## Alan Jobbins Papers


The Library received a ring binder of papers collected or created by Alan Jobbins in early 2023, mainly relating to campaigns for devolution to Wales, the Parliament for Wales Campaign and the Welsh language. A number of Plaid Cymru posters were also received and these have been transferred to the poster collection.
Alan Jobbins Papers.

## Mwy o Bapurau Deian Hopkin

**Rhoddodd Syr Deian Hopkin flwch o gardiau post at Loti Rees Hughes, Douglas Hughes, Mati Rees a'r rhoddwr o'r 1950au, 1960au a'r 1970au.**
**Ychwanegiad at**
**Deian R. Hopkin Papers.**

## Further Deian Hopkin Papers

Sir Deian Hopkin donated a box of postcards to Loti Rees Hughes, Douglas Hughes, Mati Rees and the donor from the 1950s, 1960s and 1970s.
Addition to the
Deian R. Hopkin Papers.



CYMANFA DIRWEST A MOES
GOGLEDD CEREDIGION
YN
EGLWYS Y TABERNACL, ABERYSTWYTH
DYDD IAU, MEDI 28, 1961

LLYWYDD: Y PARCH. DEWI THOMAS, B.A., LLANDRE.

2 o'r gloch. PWYLLGOR GWAITH.
2.30 o'r gloch. Y GYNHADLEDD.

*I annerch: Y Parch. T. H. GRIFFITHS, Caerdydd.*

Disgwylir i bob eglwys anfon o leiaf DDAU Gynrychiolydd i'r Gynhadledd. Bydd chwiorydd caredig y Tabernacl yn trefnu lluniaeth ar eu cyfer.

Byddwn ddiolchgar os gwnewch GASGLIAD a'i roddi yng ngofal y Cynrychiolwyr neu ei anfon yn uniongyrchol i'r Parch. J. D. JONES, B.A., B.D., ISLWYF, RHYDYFELIN, ABERYSTWYTH. Bydd yr angen eleni yn fwy nag erioed.

7 o'r gloch. Cynhelir

RALI FAWR
O BLAID
DIOGELU SUL CYMRU

LLYWYDD:
Y Gwir Barchedig ESGOB TYDDEWI, Dr. J. R. Richards.

I ANNERCH:
Y Parch. ALWYN THOMAS, B.A., Bae Colwyn.
Mr. RODERIC BOWEN, Q.C., A.S.
Mr. GORONWY ROBERTS, M.A., A.S.

DISGWYLIR I BOB EGLWYS GYHOEDDI YR UCHOD AM DDAU SUL YN OLYNOL, A THREFNU BWS I GYRCHU YR AELODAU I'R RALI. PENODER RHAI YM MHOB EGLWYS I FOD YN GYFRIFOL AM Y BWS.

Yr eiddoch yn Ei wasanaeth,
THOMAS ROBERTS, *Ysgrifennydd.*

LLYS TEG, TALIESIN, MACHYNLLETH.
Ffôn TALYBONT 276.

Cambrian News (Aberystwyth), Cyf.

Lord Goronwy-Roberts Papers




## Mwy o Bapurau'r Arglwydd Goronwy-Roberts

**Rhoddwyd 10 bocs mawr o ddeunydd i'r Llyfrgell ym mis Hydref 2022 gan gynnwys gohebiaeth, ffotograffau a nodiadau ymchwil am Roberts Jones, cyn AS Llafur dros Gaernarfon yn ogystal â phapurau Marian Goronwy-Roberts yn ymwneud â'i chyhoeddiadau a'i gwaith darlledu.**
**Ychwanegiad at**
**Lord Goronwy-Roberts Papers.**

## Further Lord Goronwy-Roberts Papers

10 large boxes of material were donated to the Library in October 2022 including correspondence, photographs and research notes on Roberts Jones, former Labour MP for Caernarvon as well as Marian Goronwy-Roberts' papers relating to her publications and broadcasting.
Addition to the
Lord Goronwy-Roberts Papers.

## Recordiadau o Caerwyn Roderick a Ffred Ffransis

**Cyflwynwyd recordiadau o drafodaeth rhwng D. Hugh Matthews a Caerwyn Roderick ar Gristnogaeth yn y Blaid Lafur, Apartheid, heddwch a Chomisiwn Killbrandon a datganiad gan Ffred Ffransis am y rhesymau y tu ôl i ymgyrchoedd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg i'r Llyfrgell ym mis Ebrill 2023. Mae'r ddau recordiad yn y Gymraeg.**
**Ychwanegiad at**
**Archif Sgrin a Sain Llyfrgell Genedlaethol Cymru.**

## Recordings of Caerwyn Roderick and Ffred Ffransis

Recordings of a discussion between D. Hugh Matthews and Caerwyn Roderick on Christianity in the Labour Party, Apartheid, peace and the Killbrandon Commission and a statement by Ffred Ffransis on the reasons behind campaigns by Cymdeithas yr Iaith Gymraeg were donated to the Library in April 2023. Both recordings are in Welsh.
Addition to the
National Library of Wales Screen and Sound Archive.

## Mwy o Bapurau Cynog Dafis

**Rhoddwyd casgliad o ffeiliau digidol yn ymwneud â Phrosiectau Cymru Yfory a DG Undeb sy'n Newid i'r Llyfrgell ym mis Hydref 2022.**
**Ychwanegiad at**
**Papurau Cynog Dafis.**

## Additional Cynog Dafis Papers

A collection of digital files relating to Tomorrow's Wales and the UK Changing Union Project were donated to the Library in October 2022.
Addition to
Papurau Cynog Dafis.

## Mwy o Gofnodion W. N. M. A.

**Saith cyfrol o gofnodion Cymdeithas Goffa Genedlaethol Cymru y Brenin Edward VII yn cynnwys amcangyfrifon, rhestr o gleifion y frech wen, cofnodion cyflogau, cofnodion eiddo, gohebiaeth a thoriadau papur newydd. Gallai rhai ffeiliau gael eu cau o dan ddeddfwriaeth diogelu data.**
**Ychwanegiad at**
**Welsh National Memorial Association Records.**

## Further W. N. M. A. Records

Seven volumes of records of the King Edward VII Welsh National Memorial Association including estimates, list of smallpox patients, records of salaries, property records, correspondence and newspaper cuttings. Some files may be closed under data protection legislation.
Addition to the
**Welsh National Memorial Association Records.**

## Mwy o bapurau gan Peter Hain

**Rhoddwyd mwy o bapurau, gan gynnwys deunydd yn ymwneud â Brexit a Gogledd Iwerddon, marwolaeth y Frenhines Elizabeth II ac ymweliad Arlywydd Gweriniaeth De Affrica â Phrydain ym mis Tachwedd 2022 i'r Llyfrgell yn Ionawr 2023.**
**Ychwanegiad at**
**Peter Hain Papers.**

## Further Peter Hain Papers

Further papers, including material relating to Brexit and Northern Ireland, the death of Queen Elizabeth II and the visit to Britain in November 2022 of the President of the Republic of South Africa were donated to the Library in January 2023.
Addition to the
**Peter Hain Papers.**

## Ychwanegiadau at Gasgliad Effemera Gwleidyddol Cymru

**Er na fu unrhyw etholiadau cenedlaethol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rhoddwyd effemera i'r Llyfrgell yn ymwneud â digwyddiadau yn nodi 100 mlynedd o oruchafiaeth y Blaid Lafur yn etholiadau Cymru (ffeil C1/1/9), Gwrthryfel Difodiant Cymru (C2/20) a Yes Cymru (C2/16).**

## Additions to the Welsh Political Ephemera Collection

Although there have been no national elections during the last year ephemera was donated relating to events marking 100 years of Labour Party dominance in Welsh elections (file C1/1/9), Extinction Rebellion Cymru (C2/20) and Yes Cymru (C2/16).

## Cofnodion Ychwanegol gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg

**Trosglwyddwyd chwe blwch pellach o ffeiliau pwnc, gohebiaeth, llyfrau lloffion, ffotograffau a chyhoeddiadau amrywiol i'r Llyfrgell ym mis Ionawr 2023.**
**Ychwanegiad at**
**Archif Cymdeithas yr Iaith Gymraeg.**

## Additional Records from Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

Six further boxes of subject files, correspondence, scrap books, photographs and various publications were transferred to the Library in January 2023.
Addition to
**Archif Cymdeithas yr Iaith Gymraeg.**

## Llyfr Lloffion Gwleidyddol Tony Lewis

**Ym mis Chwefror 2023, rhoddwyd tri llyfr lloffion a luniwyd gan Tony Lewis ac yn cynnwys toriadau papur newydd o'r 1950au a'r 1960au cynnar yn bennaf yn ymwneud â Phlaid Cymru i'r Llyfrgell ym mis Chwefror 2023.**
**NLW ex 3091.**

## Tony Lewis Political Scrapbooks

Three scrapbooks compiled by Tony Lewis and mostly containing newspaper cuttings from the 1950s and early 1960s relating to Plaid Cymru were donated to the Library in February 2023.
**NLW ex 3091.**


# **CATALOGIO**
# CATALOGUING

**Yn ystod y flwyddyn, catalogiwyd nifer o gasgliadau sydd bellach i'w gweld ar gatalog ar-lein y Llyfrgell.**


During the year, a number of collections were catalogued and made available on the Library's online catalogue.




Mesurau a Deddfau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru =
National Assembly for Wales
Measures and Acts (2022/dsc/asc/1)




Papurau Ieuan Wyn Jones




Jill Evans MEP Papers




- **Hywel Ceri Jones Papers**
- **Jill Evans MEP Papers**
- **Mesurau a Deddfau Cynulliad Cenedlaethol Cymru = National Assembly for Wales Measures and Acts**
- **Wyn Roberts Papers**
- **Baroness Eluned Morgan Papers**
- **Lord Thomas of Gwydir Papers**
- **Rev. J. T. Rhys (Margaret Lloyd George) Papers (NLW Facs 1092)**
- **Glyn Tegai Hughes Papers**
- **Ychwanegiad at Ieuan Wyn Jones Papers**

- Hywel Ceri Jones Papers
- Jill Evans MEP Papers
- Mesurau a Deddfau Cynulliad Cenedlaethol Cymru = National Assembly for Wales Measures and Acts
- Wyn Roberts Papers
- Baroness Eluned Morgan Papers
- Lord Thomas of Gwydir Papers
- Rev. J. T. Rhys (Margaret Lloyd George) Papers (NLW Facs 1092)
- Glyn Tegai Hughes Papers
- Addition to Ieuan Wyn Jones Papers

# NEWYDDION O'R ARCHIF WLEIDYDDOL GYMREIG
# NEWS FROM THE WELSH POLITICAL ARCHIVE



Darlith Flynyddol yr Archif Wleidyddol Gymreig
The Welsh Political Archive Annual Lecture

## Darlith Flynyddol 2022

**Traddodwyd darlith flynyddol 2022, a roddwyd gan y darlledwr Huw Edwards ar 4 Tachwedd yn y Drwm yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru gyda gwe-ddarllediad yr un pryd. Dyma'r tro cyntaf ers 2019 i'r ddarlith gael ei chynnal yn y Llyfrgell; cynhaliwyd trafodaeth banel ar-lein yn 2020 ac yn 2021 traddododd yr Athro Paul O'Leary ei ddarlith ar Lloyd George yn y Senedd yng Nghaerdydd.**

**Mae Huw Edwards yn wyneb a llais cyfarwydd ers yr 1980au ar y BBC, a thestun y ddarlith oedd ei waith fel gohebydd a lle Cymru yn newyddion a gwleidyddiaeth Prydain. Edrychodd Huw yn ôl ar yr 1980au, gan nodi'n benodol sut roedd y BBC wedi adrodd ar lansio S4C yn 1982 a'r sylw a roddwyd i faterion Cymreig yn Senedd y DU, gan gymharu hynny â'r cyfnod ers datganoli. Soniodd am ffigurau amlwg yng ngwleidyddiaeth Cymru gan gynnwys Jim Griffiths, Megan Lloyd George a Syr Wyn Roberts, y ddadl Gymraeg gyntaf yn Senedd y DU, datblygiadau megis sefydlu'r Uwch Bwyllgor Cymreig, y Pwyllgor Materion Cymreig, penodi Ysgrifennydd Gwladol i Gymru a sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru.**

**Fel rhan o ddigwyddiadau'r dydd cynhaliwyd arddangosfa dros dro yn dangos eitemau o archifau 3 newyddiadurwr amlwg o Gymru: Wynford Vaughan Thomas, Patrick Hannan a Gareth Vaughan Jones yn Ystafell Summers. Fel Huw Edwards, roedd Wynford Vaughan Thomas wedi cyflwyno rhaglenni'r BBC ar ddigwyddiadau mawr ym Mhrydain gan gynnwys angladdau brenhinol, Coroni'r Frenhines Elizabeth II a Gŵyl y Cofio yn Neuadd Albert.**

**Cafwyd trafodaeth ddiddorol yn dilyn y ddarlith, ac fe'i cyhoeddwyd ar dudalennau Yr Archif Wleidyddol Gymreig: https://www.llyfrgell.cymru/archifwleidyddolgymreig/darlith-flynyddol-yr-archif-wleidyddol-gymreig**

## The 2022 Annual Lecture

The 2022 annual lecture, given by broadcaster Huw Edwards, was delivered on 4 November in the Drwm at the National Library of Wales with a simultaneous webcast. This is the first time since 2019 that the lecture was held in the Library; a panel discussion was held online in 2020 and in 2021 Professor Paul O'Leary delivered his lecture on Lloyd George in the Senedd in Cardiff.

Huw Edwards is a familiar face and voice since the 1980s on the BBC, and the subject of the lecture was his work as a reporter and Wales' place in British news and politics. Huw looked back at the 1980s, noting in particular how the BBC had reported on the launch of S4C in 1982 and the coverage of Welsh affairs in the UK Parliament, comparing it to the period since devolution. He mentioned some prominent figures in Welsh politics including Jim Griffiths, Megan Lloyd George and Sir Wyn Roberts, the first Welsh debate in the UK Parliament, developments such as the establishment of the Welsh Grand Committee, the Welsh Affairs Committee, the appointment of a Secretary of State for Wales and the establishment of the National Assembly for Wales.

As part of the day's events a pop up exhibition, showing items from the archives of 3 prominent Welsh journalists: Wynford Vaughan Thomas, Patrick Hannan and Gareth Vaughan Jones was held in the Summers Room. Like Huw Edwards, Wynford Vaughan Thomas had presented BBC programmes on major British events including royal funerals, the Coronation of Queen Elizabeth II and the Festival of Remembrance at the Albert Hall.

An interesting discussion followed the lecture, the text of which has been published on the pages of The Welsh Political Archive: **https://www.library.wales/welshpoliticalarchive/the-welsh-political-archive-annual-lecture**

## Yr Arglwydd Morris o Aberafan

**Trist iawn oedd clywed am farwolaeth yr Arglwydd Morris ym mis Mehefin yn 91 oed. Bu'r Arglwydd Morris yn AS dros Aberafan am dros 41 mlynedd a chyn hynny bu'n swyddog cyfreithiol ac yn Ddirprwy Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb Amaethwyr Cymru. Cedwir ei archif sylweddol, sy'n ymdrin â llawer o uchafbwyntiau ei yrfa gan gynnwys ei gyfnod fel Ysgrifennydd Gwladol Cymru ac fel Twrnai Cyffredinol, yn y Llyfrgell a thraddododd ein darlith flynyddol yn 2013.**

## Lord Morris of Aberavon

We were very sad to hear of the death of Lord Morris in June at the age of 91. Lord Morris was MP for Aberavon for over 41 years and had previously been legal officer and Deputy General Secretary of the Farmers' Union of Wales. His substantial archive, covering many highlights of his career including his time as Secretary of State for Wales and Attorney General, is held at the Library and he delivered our annual lecture in 2013.

## Ann Clwyd

**Trist iawn oedd clywed am farwolaeth Ann Clwyd ym mis Gorffennaf. Ers gadael Senedd y Deyrnas Gyfunol yn 2019 roedd Ann wedi gweithio gyda'r Llyfrgell a Phrifysgol Aberystwyth ar drefniadau i sicrhau bod ei phapurau yn cael eu catalogio a'u hastudio ac roedd yn bleser cael Ann yn rhan o ddigwyddiad lansio'r brosiect ym mis Mawrth 2023. Mae'r Llyfrgell yn estyn cydymdeimlad i'w theulu a'i ffrindiau.**

## Ann Clwyd

We were very sad to hear of the death of Ann Clwyd in July. Since leaving the UK Parliament in 2019, Ann had worked with the Library and Aberystwyth University to ensure that her papers were catalogued and studied and it was a pleasure to have Ann take part in the project launch event in March 2023. The Library extends its condolences to her family and friends.

## Cyhoeddiadau

**Cyhoeddwyd *Maniffesto 53*, yn manylu ar gaffaeliadau newydd, gwaith catalogio, gweithgareddau hyrwyddo ac ymgysylltu a chydag erthygl gan Dr Sam Blaxland ar wreiddiau'r Blaid Geidwadol yng Nghymru, ym mis Hydref 2023.**

**Ysgrifennodd Rob Phillips erthygl ar gyfer rhifyn gaeaf 2022 o gylchgrawn *Cara*, yn manylu ar y prosiect *Gwir Gofnod o Gyfnod/Setting the Record Straight*, dan arweiniad Archif Menywod Cymru i gasglu hanesion llafar ac archifau papur gan fenywod sydd wedi gwasanaethu fel aelodau o Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Senedd Cymru.**

**Cyhoeddwyd *The Campaigns of Margaret Lloyd George* gan Richard O'Brien gan Y Lolfa ddiwedd 2022. Mae'n ddadansoddiad manwl o fywyd cyhoeddus gwraig gyntaf y Prif Weinidog David Lloyd George, sy'n canolbwyntio ar ei hymgyrchu gwleidyddol prysur yn ystod y cyfnod y bu Lloyd George yn Brif Weinidog o 1916 i 1922 ac mae'n seiliedig ar gasgliad o areithiau'r Fonesig Margaret yng nghasgliad preifat Richard O'Brien.**

**Rhoddwyd copïau o'r areithiau hyn i'r Llyfrgell ym mis Medi 2019.**

## Publications

*Manifesto 53*, detailing new acquisitions, cataloguing work, promotional and outreach activities and with an article by Dr Sam Blaxland on the grassroots of the Conservative Party in Wales, was published in October 2023.

Rob Phillips wrote an article for the winter 2022 edition of *Cara* magazine, detailing the *Gwir Gofnod o Gyfnod/Setting the Record Straight* project, led by Women's Archive Wales to collect oral histories and paper archives from women who have served as members of the National Assembly for Wales and the Welsh Parliament.

*The Campaigns of Margaret Lloyd George* by Richard O'Brien was published by Y Lolfa in late 2022. It's an in-depth analysis of the public life of the first wife of Prime Minister David Lloyd George, concentrating on her active political campaigning during Lloyd George's Premiership from 1916 to 1922 and is based on the collection of Dame Margaret's speeches in Richard O'Brien's private collection.

Copies of these speeches were donated to the Library in September 2019.

## Ymweliad â Phrifysgol Bangor

**Ymwelodd Rob Phillips â Phrifysgol Bangor ar 10 Mawrth 2023 i siarad â myfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig am yr Archif Wleidyddol Gymreig a'r ffynonellau sydd ar gael iddynt ar gyfer eu hymchwil.**

## Visit to Bangor University

Rob Phillips visited Bangor University on 10 March 2023 to speak to undergraduate and postgraduate students on the Welsh Political archive and sources available to them for their research.

## Aelodau pwyllgor newydd

**Mae'n bleser gennym gyhoeddi bod Owen Roberts, Prif Weithredwr Plaid Cymru, Tom James, Cyfarwyddwr y Ceidwadwyr Cymreig a Gwynoro Jones, cyn AS Llafur Caerfyrddin, darlledwr ac awdur, wedi cytuno i ymuno â'r pwyllgor, ac edrychwn ymlaen at gydweithio â nhw dros y blynyddoedd nesaf.**

## New committee Members

We are delighted to announce that Owen Roberts, Chief Executive of Plaid Cymru, Tom James, Director of the Welsh Conservatives and Gwynoro Jones, former Labour MP for Carmarthen, broadcaster and author, have agreed to join the committee, and we look forward to working with them over the next few years.



## Llafur100

Roedd y Llyfrgell yn rhan o ddigwyddiadau Tachwedd 2022 i nodi canrif o rym gwleidyddol y Blaid Lafur yng Nghymru. Cynhaliwyd y prif ddigwyddiad ar 15 Tachwedd 2022 yn y Pierhead a chafwyd areithiau gan Syr Deian Hopkin, Mark Drakeford AS, Eluned Morgan AS, Alaw Davies, Nia Griffith AS a'r Athro Richard Wyn Jones. Cyflwynwyd amserlen ddigidol fanwl, yn cynnwys digwyddiadau allweddol, deddfwriaeth a phobl i'r Archif Wleidyddol Gymreig a chafodd sawl eitem eiconig o gasgliadau'r Llyfrgell, gan gynnwys portread o Rhodri Morgan gan David Griffiths, penddelw o Jim Griffiths, copi o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1946, maniffesto Llafur Cymru ar gyfer etholiadau 1999 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a llun o Megan Lloyd George eu harddangos yn ystod y digwyddiad.

Mae'r llinell amser ar gael ar dudalennau gwe yr Archif Wleidyddol Gymreig ar [https://www.llyfrgell.cymru/llafur100](https://www.llyfrgell.cymru/llafur100)









Llafur100



## Llafur100

The Library was part of events in November 2022 to mark a century of Labour Party dominance of politics in Wales. The main event was held on 15 November 2022 at the Pierhead and featured speeches from Sir Deian Hopkin, Mark Drakeford MS, Eluned Morgan MS , Alaw Davies, Nia Griffith MP and Professor Richard Wyn Jones. A detailed digital timeline, featuring key events, legislation and people was presented to the Welsh Political Archive and several iconic items from the Library's collections, including a portrait of Rhodri Morgan by David Griffiths, a bust of Jim Griffiths, a copy of the National Health Service Act 1946, Welsh Labour's manifesto for the 1999 elections to the National Assembly for Wales and a photograph of Megan Lloyd George were displayed during the event.

The timeline can be viewed on the Welsh Political Archive web pages at **[https://www.library.wales/llafur100](https://www.library.wales/llafur100)**



## Ymweliad Cefin Campbell AS

**Ymwelodd Cefin Campbell, Aelod o'r Senedd dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru â'r Llyfrgell ar 2 Rhagfyr 2022 i weld eitemau o'r casgliad gan gynnwys rhai o Bapurau Dr Carl Clowes a Chofnodion Ymddiriedolaeth Nant Gwrtheyrn.**

## Visit of Cefin Campbell MS

Cefin Campbell, Member of the Senedd for Mid and West Wales visited the Library on 2 December 2022 and viewed items from the collection including papers from Papurau Dr Carl Clowes and Cofnodion Ymddiriedolaeth Nant Gwrtheyrn.




Ymweliad Dawn Bowden AS
Visit of Dawn Bowden MS

## Ymweliad gan y Dirprwy Weinidog

**Ymwelodd Dawn Bowden, Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth, â'r Llyfrgell ar 15 Rhagfyr 2022 a chafodd gyfle i weld nifer o eitemau o'r casgliadau gan gynnwys rhai o'i hanerchiadau etholiadol ei hun, cofnodion undeb NALGO a TUC Cymru a chofnodion cynnar o archif y Blaid Lafur Gymreig.**

## Visit by the Deputy Minister

Dawn Bowden, the Deputy Minister for Arts, Sport and Tourism, visited the Library on 15 December 2022 and viewed a number of items from the collections including some of her own election addresses, records from the NALGO union and TUC Cymru and early minutes from the Welsh Labour Party archive.




Blog LLGC/NLW Blog

# AR EIN CYFRYNGAU CYMDEITHASOL
# ON OUR SOCIAL MEDIA

**Mae'r Archif Wleidyddol Gymreig wedi cynnal ffrydiau X (Twitter gynt) byw yn y Gymraeg a'r Saesneg drwy gydol y flwyddyn. Mae hyn wedi ein galluogi i arddangos derbynion newydd, i amlygu pryd mae casgliadau wedi'u catalogio a hefyd i dynnu sylw at gasgliadau sy'n berthnasol i straeon newyddion neu benblwyddi.**

The Welsh Political Archive has maintained active X (formerly Twitter) feeds in both English and Welsh throughout the year. This has allowed us to showcase new acquisitions, to highlight when collections have been catalogued and also to highlight collections which are relevant to news stories or anniversaries.

## Blog Llyfrgell Genedlaethol Cymru

**Yn ystod y flwyddyn ysgrifennodd Rob Phillips nifer o erthyglau i Flog Llyfrgell Genedlaethol Cymru ar gasgliadau gwleidyddol y Llyfrgell a gweithgareddau'r Archif Wleidyddol Gymreig. Ysgrifennodd Rob Phillips flog ym mis Tachwedd 2022 yn manylu ar Ddarlith Flynyddol yr Archif Wleidyddol Gymreig:**

↘

**[https://blog.llyfrgell.cymru/darlith-flynyddol-yr-archif-wleidyddol-gymreig-2022/](https://blog.llyfrgell.cymru/darlith-flynyddol-yr-archif-wleidyddol-gymreig-2022/)**

**ac un arall yn Chwefror 2023 am fethiant Cynhadledd Petrolewm y Sefydliad Llafur Rhyngwladol yn 1955 oherwydd y modd y cafodd un o gynrychiolwyr yr undeb ei drin ac ymdrechion y Gwas Sifil o Gymru, Syr Guildhaume Myrddin-Evans i negodi ateb i'r sefyllfa anodd:**

↘

**[https://blog.llyfrgell.cymru/cweyl-yn-caracas/](https://blog.llyfrgell.cymru/cweyl-yn-caracas/)**

## National Library of Wales Blog

During the year Rob Phillips wrote a number of articles for the National Library of Wales Blog on the Library's political collections and the activities of the Welsh Political Archive. Rob Phillips wrote a blog in November 2022 detailing the Welsh Political Archive Annual Lecture:

↘

[https://blog.library.wales/the-welsh-political-archive-annual-lecture-2022/](https://blog.library.wales/the-welsh-political-archive-annual-lecture-2022/)

and another in February 2023 on the collapse of the International Labour Organisation Petroleum Conference in 1955 due to the treatment of one of the union delegates and the efforts of Welsh Civil Servant, Sir Guildhaume Myrddin-Evans to negotiate a solution to the impasse:

↘

[https://blog.library.wales/the-caracas-controversy/](https://blog.library.wales/the-caracas-controversy/)

## Gareth Jones 90

**Ym mis Mawrth 2023 nodwyd 90 mlynedd ers ymweliad y newyddiadurwr Cymraeg Gareth Vaughan Jones â'r Undeb Sofietaidd i ymchwilio i adroddiadau am newyn mawr a'i daith gerdded trwy ran o Wcráin i weld effeithiau'r newyn drosto'i hun. I nodi'r digwyddiad hwn, fe wnaeth yr Archif Wleidyddol Gymreig bostio detholiadau o ddyddiaduron a llythyrau Gareth yn ystod mis Mawrth, union 90 mlynedd i'r diwrnod ers iddynt gael eu hysgrifennu a'r uchafbwynt oedd llythyr a anfonodd Gareth at ei rieni o Danzig ar 27 Mawrth. Creodd yr ymgyrch gryn ddiddordeb a chafodd Rob Phillips ei gyfweld ar BBC Radio Cymru ynghylch yr ymgyrch ar 9 Mawrth.**




Ymgyrch X #GarethJones 90
#Gareth Jones 90 X Campaign

## Gareth Jones 90


March 2023 saw the 90th anniversary of Welsh journalist Gareth Vaughan Jones's visit to the Soviet Union to investigate reports of a great famine and his walk through part of Ukraine to see the effects of the famine first hand. To mark this event, during March the Welsh Political Archive posted extracts from Gareth's diaries and letters exactly 90 years to the day they were written culminating in a letter Gareth sent to his parents from Danzig on 27 March. The campaign created a great deal of interest and Rob Phillips was interviewed on BBC Radio Cymru about the campaign on 9 March.

**@AWGymreig**
@WelshPolArch

# **DIGIDO**
# DIGITISATION

**Fel rhan o ymdrechion parhaus y Llyfrgell i wneud ei chasgliadau ar gael yn ehangach mae nifer o eitemau o'r casgliadau gwleidyddol wedi eu digido yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.**

**Yn dilyn digido llawysgrif anghyflawn o gofiant heb ei gyhoeddi yr Arglwydd Davies o Landinam gan Syr Charles Tennyson yn 2017, yn hael iawn fe fenthycodd y teulu Davies gopi cyflawn o'r llawysgrif i'r Llyfrgell i'w ddigido fel y bydd y testun llawn ar gael i'r cyhoedd ei astudio (Lord Davies of Llandinam Papers E2/1/38).**
**https://archives.library.wales/index.php/biography-of-lord-davies-2**




Gareth Vaughan Jones Papers B8/2

**Cafodd dyddiadur olaf Gareth Vaughan Jones (Papurau Gareth Vaughan Jones B8/2), a ysgrifennwyd yn ystod wythnosau olaf ei fywyd yn 1935 hefyd ei ddigido yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn cyd-fynd â gwaith digido cynharach, a ariannwyd gan Gynghrair Genedlaethol Menywod America Wcráin, Sefydliad Rhyddid Sifil Wcráin Canada a Sefydliad Teulu Temerty, a gwblhawyd ddiwedd 2021.**
**https://archives.library.wales/index.php/travel-notebook**


**Cafodd teipysgrif heb ei chyhoeddi gan yr Arglwydd Ogmore, (Lord Ogmore Papers 54) yn manylu ar y trefniadau ar gyfer Arwisgiad Tywysog Cymru ym 1969 hefyd ei digido gyda chaniatâd caredig y teulu.**
**https://archives.library.wales/index.php/investiture-of-prince-of-wales-4**

As part of the Library's ongoing efforts to make its collections more widely available a number of items from the political collections have been digitised in the last year.

Following the digitisation of an incomplete manuscript of the unpublished biography of Lord Davies of Llandinam by Sir Charles Tennyson in 2017, the Davies family generously loaned a complete copy of the manuscript to the Library to digitise so that the full text will be available to the public to study (Lord Davies of Llandinam Papers E2/1/38).
https://archives.library.wales/index.php/biography-of-lord-davies-2

Gareth Vaughan Jones's final diary, (Gareth Vaughan Jones Papers B8/2) written during the last weeks of his life in 1935 was also digitised during the year. This compliments earlier digitisation, funded by the Ukrainian National Women's League of America, the Ukrainian Canadian Civil Liberties Foundation and the Temerty Family Foundation, completed in late 2021.
https://archives.library.wales/index.php/travel-notebook

An unpublished typescript by Lord Ogmore, (Lord Ogmore Papers 54) detailing the arrangements for the Investiture of the Prince of Wales in 1969 was also digitised with the kind permission of the family.
https://archives.library.wales/index.php/investiture-of-prince-of-wales-4




Lord Ogmore Papers 54

# GOLWG AR...
# SPOTLIGHT ON...

## Gweithio ar Bapurau Ann Clwyd

*gan Siân Smith*

**Roedd Ann Clwyd yn sicr yn fenyw ddylanwadol yn hanes y Blaid Lafur a Gwleidyddiaeth Cymru yn ehangach ac yn un a gafodd yrfa amrywiol ac arwyddocaol. Gwasanaethodd fel ASE o 1979 ac yna fel AS Cwm Cynon o 1984 tan 2019; hi oedd y fenyw gyntaf i gynrychioli'r etholaeth honno. Yn ei chyfnod ar y meinciau cefn ac o fewn y cabinet bu'n hyrwyddo ystod o achosion, o gefnogi glowyr Glofa'r Tŵr, i achos y Cwrdiaid ac ymgyrchu dros Hawliau Dynol yma a thramor.**

**Mae hyn yn amlwg o'r casgliad helaeth a drosglwyddodd i'r Llyfrgell Genedlaethol. Rwyf wedi bod yn gweithio trwy ei harchif o dros 100 o focsys ac yn mynd trwy bob un i weld pa ddeunydd sydd yno ac i gael trosolwg o'i gyrfa ynghyd â'r achosion a hyrwyddodd a'r rolau a gyflawnodd. Mae'r archif yn rhoi darlun cyflawn o'i gyrfa a gwybodaeth hanesyddol werthfawr o ddiwedd yr 20fed ganrif i'r 21ain ganrif. Yn arbennig, maent yn cynnig cipolwg ar feysydd fel y Blaid Lafur yng Nghymru a'r DU ehangach a'i pherthynas ag unigolion allweddol. Ar yr un pryd mae'n dangos safbwyntiau ei hetholwyr a phobl eraill ledled y DU trwy lythyrau a gohebiaeth gyffredinol ac yn rhoi golwg onest ar agweddau tuag at ei gwaith, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol. Heb os nac oni bai, mae wedi bod yn ddiddorol mynd trwy'r deunydd hwn fel rhywun a gafodd ei geni yn hanner olaf y '90au. Mae'n rhoi'r cyd-destun a mewnwelediad hanesyddol gwerthfawr i faterion sy'n dal i effeithio arnom yn gynnar yn yr 21ain ganrif.**

**Yn hollbwysig, mae yna hefyd lawer o ddeunyddiau sy'n gysylltiedig â'i hymrwymiad i ddelio â hawliau dynol mewn lleoedd fel Twrci, Timor-Leste (Dwyrain Timor), Rwanda, y Balcanau, Sierra Leone, a Cambodia. Mae'r ffocws a'r ymrwymiad hwn i gefnogi a gofalu am hawliau dynol pobl gartref a thramor yn amlwg o'r amrywiaeth o ffeiliau a deunyddiau sy'n ymwneud ag ymweliadau, trafodaethau, a gwaith gyda sefydliadau y bu'n eu cynorthwyo neu eu cefnogi. Roedd yn rhan fawr o'i gyrfa ac mae'n cael llawer o sylw yn yr archif.**

## Working on Ann Clwyd's Papers

*by Siân Smith*

Ann Clwyd was certainly an influential woman in the history of the Labour Party and Welsh Politics more widely and she had a varied and significant career. She served as an MEP from 1979 and then as MP for the Cynon Valley from 1984 until 2019; she was the first woman to represent that constituency. In her time as a backbencher and within the cabinet she championed a range of causes, from supporting the Tower Colliery miners, to the Kurdish cause and campaigning for Human Rights here and abroad.

This is evident from the extensive collection she transferred the National Library. I have been working through her archive of more than 100 boxes and going through each one to determine what material is present and to get an overview of her career along with the causes she championed and the roles she undertook. The archives give a rounded picture of her career and valuable historical information of the late 20th Century into the 21st century. Notably, it gives insight into areas such as the Labour Party in both Wales and the wider UK and her relationship with key individuals. At the same time it provides perspectives from her constituents and other people throughout the UK through general letters and correspondence, including an honest insight into attitudes towards her work, whether positive or negative. Without a doubt, it has been interesting to go through this material as someone born in the latter half of the '90s. It provides the context and valuable historical insight into issues which still affect us in the early 21st century.

Crucially, there are also many materials related to her commitment to dealing with human rights in places such as Turkey, Timor-Leste (East Timor), Rwanda, the Balkans, Sierra Leone and Cambodia. This focus and commitment to supporting and caring for people's human rights home and abroad is evident from the range of files and materials covering visits, discussions and work with organisations she helped or supported. It was a major part of her career and is well represented in the archive.






Digwyddiad Rebel With a Cause: Exploring the Political Archive of Ann Clwyd
Rebel With a Cause: Exploring the Political Archive of Ann Clwyd Event

**Mae yna hefyd lawer o ddeunyddiau yn ymwneud ag Irac a'r Cwrdiaid. Maen nhw'n cwmpasu dros 40 mlynedd o'i gwaith, cyn, yn ystod ac ar ôl Rhyfel Irac. Mae yna ddeunyddiau amrywiol o'r Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol (DFID), adroddiadau INDICT, gohebiaeth gan bobl o bob cefndir ac adroddiadau am am yr ymweliadau rheolaidd a wnaeth ar ran y sefydliadau hyn a gohebiaeth at y Prif Weinidog, Tony Blair, pan oedd yn Gennad Arbennig i Irac. Maen nhw'n cynnwys gwybodaeth sylweddol a gwerthfawr ond gallan nhw hefyd fod yn heriol oherwydd natur y cynnwys, yn ogystal â bod angen eu gwirio'n ofalus oherwydd y wybodaeth bersonol sensitif sydd yn y ffeiliau hyn. Mae cydbwysedd anodd yma rhwng parchu preifatrwydd a chyfrinachedd y bobl y sonnir amdanyn nhw yn y ffeiliau hyn a darparu mynediad i ganiatáu ymchwil. Fodd bynnag, pan fyddwn yn canfod data personol sensitif y penderfyniad arferol yw cyfyngu mynediad i'r ffeiliau yn unol â deddfwriaeth Diogelu Data a Rhyddid Gwybodaeth. Mae hon wedi bod yn broses ryfeddol a heriol.**

**Ar y cyfan, mae mynd trwy gasgliad mor gynhwysfawr wedi bod yn broses ddiddorol a dim ond ychydig o'r pynciau a'r safbwyntiau sydd yn y papurau yr wyf wedi gallu eu crybwyll. Mae wedi bod yn gyfle gwych i mi ac yn adnodd hynod ddiddorol i'r rhai sy'n ymddiddori yn Ann Clwyd a'r achosion y bu'n eu hyrwyddo.**

There are also extensive materials related to Iraq and the Kurdish people. They cover over 40 years of her involvement, before, during and after the Iraq War. There are various materials from the Department for International Development (DFID), INDICT reports, correspondence from people of all backgrounds and her routine visit reports made for these organisations and to the Prime Minister, Tony Blair, when she was Special Envoy to Iraq. They contain significant and valuable information but can also be challenging due to the nature of the content, as well as requiring careful checking due to the sensitive personal information contained in these files. There is a difficult balance between respecting privacy and the confidentiality of people who are mentioned in these files and providing access to allow research. However, where we identify sensitive personal data the default position is to limit access to the files in line with Data Protection and Freedom of Information legislation. I've found this a fascinating and challenging process.

Overall, it has been an interesting process going through such a comprehensive collection and I've only been able to mention a few of the topics and perspectives the papers contain. It has been a great opportunity for me and a fascinating resource for those interested in Ann Clwyd and the causes she championed.

***Siân Smith yw'r archifydd prosiect sy'n gweithio ar Bapurau Ann Clwyd. Mynychodd Ysgol Uwchradd Pontypridd ac mae ganddi radd mewn Hanes a gradd ôl-raddedig mewn Rheoli Archifau a Chofnodion o Brifysgol Aberystwyth. Cyn hyn bu'n gwneud gwaith gwirfoddol gyda Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac Archifau Morgannwg ac mae wedi bod yn gweithio yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru ers mis Rhagfyr 2022.***

*Siân Smith is the project archivist working on the Ann Clwyd Papers. She attended Pontypridd High School and has a degree in History and a postgraduate degree in Archives and Records Management from Aberystwyth University. She previously undertook voluntary work with The National Library of Wales and the Glamorgan Archives and has been working at the National Library of Wales since December 2022.*

## Partneriaeth gyda Phrifysgol Aberystwyth

*gan Rob Phillips*

**Pan drosglwyddodd Ann Clwyd ei phapurau i Lyfrgell Genedlaethol Cymru, roedd yn awyddus iawn iddyn nhw gael eu defnyddio ar gyfer astudio cyn gynted â phosibl. Roedd y Llyfrgell hefyd yn frwdfrydig a daeth o hyd i bartner parod iawn yn adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol Prifysgol Aberystwyth.**

**Gweithiais gyda Dr James Vaughan ar gais am wobr Efrydiaeth PhD Cydweithredol y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC) i fyfyriwr weithio ar y casgliad, gan ganolbwyntio ar y Mudiad Llafur Prydeinig a'r Ymgyrch dros Hawliau Democrataidd a Hawliau Dynol yn Irac rhwng 1984 a 2010.**

**Bydd y prosiect yn archwilio cyfraniadau Cymreig i faterion ehangach polisi tramor Prydain a chysylltiadau rhyngwladol, ac yn benodol gyfraniad y Blaid Lafur Gymreig tuag at lunio polisi Irac, a lleoli'r dadansoddiad hwn o fewn traddodiadau rhyngwladoldeb Cymru sy'n dyddio'n ôl i'r Rhyfel Mawr. Bydd yn dadansoddi'r berthynas rhwng yr ymgyrchoedd hynny ac ymddangosiad Llafur Newydd fel plaid lywodraethol, sydd wedi ymrwymo i bwyslais o'r newydd ar ddimensiynau moesegol polisi tramor gan ddarparu set ddiddorol a phwysig o fewnwelediadau i'r berthynas rhwng actifiaeth hawliau dynol Prydeinig-Iracaidd a llwybr llywodraeth Blair tuag at Ryfel Irac 2003 a dymchweliad Saddam Hussein.**

**Bydd y prosiect hefyd yn tynnu ar grwpiau o actifyddion ac ymgyrchwyr o fewn cymunedau Cwrdaidd ac Iracaidd yng Nghymru, gan ddibynnu ar bapurau Ann Clwyd ac archifau eraill yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn ogystal â mewn cadwrfeydd eraill. Agwedd bwysig o'r prosiect yw cyfraniad Ann Clwyd ei hun a'i hawydd i ddarparu ei mewnwelediad unigryw ei hun i'r digwyddiadau hyn a chyd-destun i'r dogfennau sy'n rhan o'r archif.**

**Bydd tîm goruchwylio'r prosiect yn fy nghynnwys i, Dr James Vaughan a Dr Gillian McFadyen o Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol Prifysgol Aberystwyth. Bydd fy nghyfraniad i ar ran y Llyfrgell yn cynnwys hwyluso mynediad i'r casgliad, mynychu tri chyfarfod goruchwylio, rhoi cyngor ar gynllunio ymchwil prosiect, lledaenu ac ymgysylltu â'r cyhoedd, a gweithgareddau cyfnewid gwybodaeth.**

**Penodwyd Benjamin Woodburn i'r efrydiaeth ym mis Mawrth 2023 a'r gobaith yw y bydd yn dechrau ar ei waith yn yr Hydref. Bydd Siân Smith, yr archifydd prosiect, yn gweithio gyda Benjamin i roi hyfforddiant iddo mewn ymarfer archifol, diogelu data ac egwyddorion rhyddid gwybodaeth a bydd e'n cyfrannu at flog casgliad y Llyfrgell, a *Maniffesto: Cylchlythyr Blynyddol Archif Wleidyddol Gymreig* gan ei sefydlu fel arbenigwr cyhoeddus yn y maes.**

**Mae'r cydweithio hwn yn brosiect cyffrous iawn i'r Archif Wleidyddol Gymreig a bydd yn helpu i gyflawni rhannau allweddol o'n cenhadaeth nid yn unig i gasglu a storio ond hefyd i hyrwyddo mynediad ac astudio a darparu dehongliad ysgolheigaidd o ddeunydd archifol sy'n adlewyrchu bywyd gwleidyddol Cymru.**

***Rob Phillips yw'r Archifydd sy'n gyfrifol am yr Archif Wleidyddol Gymreig.***

## Partnership with Aberystwyth University

*by Rob Phillips*

When Ann Clwyd transferred her papers to the National Library of Wales, she was very keen that they be used for study as soon as possible. The Library was also keen and found a very willing partner in the department of International Politics at Aberystwyth University.

I worked with Dr James Vaughan on an application for an Economic and Social Research Council (ESRC) Collaborative PhD Studentship award for a student to work on the collection, concentrating on the British Labour Movement and Campaign for Democratic and Human Rights in Iraq between 1984 and 2010.

The project will explore Welsh contributions to broader issues of British foreign policy and international relations, specifically the contribution of the Welsh Labour Party towards the formulation of Iraq policy, and locate this analysis within traditions of Welsh internationalism dating back to the Great War. It will analyse the relationship between those campaigns and New Labour's emergence as a party of government, committed to a renewed emphasis on the ethical dimensions of foreign policy providing a fascinating and important set of insights into the relationship between British-Iraqi human rights activism and the Blair government's path towards the 2003 Iraq War and the overthrow of Saddam Hussein.

The project will also draw upon activist groups and campaigners within Kurdish and Iraqi communities in Wales, relying on Ann Clwyd papers and other archives at the National Library of Wales as well as in other repositories. An important aspect of the project is the involvement of Ann Clwyd herself and her eagerness to provide her own unique insight into these events and context to the documents which make up the archive.

The project's supervisory team will consist of myself, Dr James Vaughan and Dr Gillian McFadyen from the Department of International Politics at Aberystwyth University. My contribution on behalf of the Library will include facilitating access to the collection, attending three supervisory meetings, advising on project research design, dissemination and public engagement, and knowledge exchange activities.

Benjamin Woodburn was appointed to the studentship in March 2023 and it is hoped that he will begin work in the Autumn. Siân Smith, the project archivist will work with Benjamin to provide him with training in archival practice, data protection and freedom of information principles and he will contribute to the Library's collection blog, and *Maniffesto: The Welsh Political Archive Annual Newsletter* establishing him as a public expert in the field.

This collaboration is a very exciting project for the Welsh Political Archive and will help achieve key parts of our mission not just to collect and store but to promote access and study and provide scholarly interpretation of archival material which reflects the political life of Wales.

*Rob Phillips is the Archivist responsible for the Welsh Political Archive.*







Casgliad Effemera Gwleidyddol Cymreig
Welsh Political Ephemera collection

## Yr Archif Wleidyddol Gymreig yn 40: gwireddu gweledigaeth

***gan Syr Deian Hopkin***

**Mae deugain mlynedd ers sefydlu'r Archif Wleidyddol Gymreig yn achlysur sy'n galw am ddathliad arbennig. Er bod y Llyfrgell, ers ei sefydlu, wedi derbyn rhoddion hael o lawysgrifau a deunydd archifol arall, daeth yn amlwg i aelodau ymroddedig o staff y Llyfrgell ar ddechrau'r 1980au y gallai fod angen dull mwy uniongyrchol o nodi deunydd o ddiddordeb ar adeg o gynnwrf gwleidyddol arbennig, heb sôn am effaith hirdymor methiant y prosiect Datganoli a'r rhwyg o fewn y Blaid Lafur a arweiniodd at greu'r Blaid Ddemocrataidd Gymdeithasol. Roedd rhai adnoddau wedi'u nodi yn dilyn llwyddiant Apêl Pen-blwydd y Llyfrgell yn 75 oed ac yn gynnar yn 1983, ffurfiwyd pwyllgor mewnol bychan i archwilio'r ffordd orau o wireddu'r weledigaeth o archif ddeinamig. Cefais y fraint o ymuno fel cynrychiolydd Cyngor y Llyfrgell a mynychu'r cyfarfodydd bob yn ail wythnos i ddatblygu gweledigaeth a strategaeth a mecanwaith priodol. Roedd hwn yn brofiad gwefreiddiol oherwydd roedd yn amlwg i bob un ohonom ein bod yn mynd i mewn i diriogaeth ddiarth ond rhywbeth a allai, gydag amser, ddod â manteision gwirioneddol i'r Llyfrgell ac i'r gwaith o astudio gwleidyddiaeth a hanes Cymru.**

**Ac felly y bu. Mae Gwyn Jenkins, cyn bennaeth Llawysgrifau a chadeirydd y pwyllgor cyntaf hwnnw, wedi rhoi disgrifiad rhagorol o esblygiad yr Archif dros ei deng mlynedd ar hugain cyntaf (*Maniffesto*, Rhifyn 44, 2013). Ar y cychwyn, fodd bynnag, roedd yn amlwg y dylai'r ffiniau ar gyfer casglu deunydd fod mor eang â phosibl. Yn fuan ar ôl sefydlu'r pwyllgor mewnol, galwyd Etholiad Cyffredinol, a hwn oedd y cyfle a'r her wirioneddol gyntaf i'r Archif newydd. Taflwyd y rhwyd yn eang, ac un awgrym nodedig a dderbyniwyd oedd sefydlu rhwydwaith cenedlaethol o wirfoddolwyr i gasglu deunyddiau ymgyrchu ym mhob etholaeth yng Nghymru a chysylltwyd â chwmnïau cyfryngau i ofyn am dapiau o gyfweliadau. Daeth yn amlwg yn fuan hefyd fod cofnodion sefydliadau ymgyrchu a charfanau pwyso yn gofnod hanesyddol hanfodol bwysig, a oedd mor aml yn cael eu hanwybyddu.**

**Mae'r rhestr o archifau a gasglwyd dros y pedwar degawd dilynol yn dystiolaeth huawdl o lwyddiant yr Archif. Mae rhifynnau olynol o'r Cylchlythyr, sydd ei hun wedi esblygu o'i rifyn cyntaf syml ym 1984/5 i fod yn gyhoeddiad blynyddol deniadol iawn, yn dangos ystod, dyfnder ac ansawdd y deunydd sydd wedi'i gasglu a'i gadw, o gofnodion y prif bleidiau gwleidyddol yng Nghymru a'u canghennau etholaethol i archifau personol nifer fawr iawn o ASau Cymru a ffigurau cyhoeddus nodedig, rhywbeth y mae rhywun yn ei amau na fyddai efallai wedi digwydd fel arall.**

## The Welsh Political Archive at 40: a vision realised

*by Sir Deian Hopkin*

The fortieth anniversary of the Welsh Political Anniversary is a moment for real celebration. While the Library had, since its inception, received generous donations of manuscripts and other archival material, it became clear to dedicated members of staff within the Library in the early 1980s that a more direct approach might be needed to identify material of interest at a time of particular political turbulence not least the lingering impact of the failed Devolution project and the schism within the Labour Party which had led to the creation of the Social Democratic Party. Some resources had been identified following the Library's successful 75th Anniversary Appeal and in early 1983, a small internal committee was formed to explore the best way of achieving the vision of a dynamic archive. I was privileged to join as the representative of the Library's Council and to attend the bi-weekly meetings to develop a vision and appropriate strategy and mechanism. This was an enthralling experience because it was clear to us all that we were entering uncharted territory but something which could, over time, yield real benefits to the Library and to the study of Welsh politics and history.



**O'r cychwyn cyntaf, mae staff yr Archif wedi cael cefnogaeth gref gan aelodau brwdfrydig y Pwyllgor Ymgynghorol cynrychioliadol, a sefydlwyd gan Fwrdd Ymddiriedolwyr y Llyfrgell, ac sy'n dod o bob rhan o'r sbectrwm gwleidyddol gan gynnwys gwleidyddion, academyddion a newyddiadurwyr sy'n eistedd ochr yn ochr â staff y Llyfrgell. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Pwyllgor ym mis Ebrill 1984 a bu'r aelodau'n ffynhonnell amhrisiadwy o gyngor, yn aml yn dod â chasgliadau o ddeunydd i gyfarfodydd yn frwdfrydig, yn cyfeirio staff yr Archif at ddeunydd o ddiddordeb, neu'n anfon sylwadau at etholaethau a phleidiau lleol ar ran y Llyfrgell. Ac yn y Pwyllgor y cynigiwyd y syniad o Ddarlith Flynyddol sydd, o 1987 ymlaen, wedi bod yn ffocws allweddol i'r Archif, gan roi cyfle i wleidyddion ac academyddion o fri fyfyrio ar eu gyrfaoedd mewn lleoliad cyhoeddus.**

**Mae hefyd yn destun pleser mawr fod staff yr Archif dros y blynyddoedd wedi cyfrannu'n helaeth at ein dealltwriaeth o wleidyddiaeth Cymru. Mae cyhoeddiadau Beti Jones yn cynnwys llawlyfr amhrisiadwy o ystadegau etholiadol Cymru ac mae John Graham Jones wedi cyhoeddi erthyglau dirifedi ar hanes gwleidyddol Cymru. Mae Gwyn Jenkins, wrth gwrs, yn awdur nodedig ar hanes Cymru a bywgraffiadau, a daeth cynorthwyydd ymchwil cyntaf yr Archif, Paul O'Leary, maes o law yn ddeilydd cadair Hanes Cymru Syr John Williams ym Mhrifysgol Aberystwyth ac ef gyflwynodd ddarlith flynyddol yr Archif yn 2021.**

**Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf mae heriau newydd wedi ymddangos, wrth gwrs, yn enwedig dyfodiad y cyfryngau cymdeithasol a diflaniad graddol y ffurfiau hŷn o gadw cofnodion, gohebiaeth a ysgrifennwyd â llaw, neu'r llythyr traddodiadol. Ac eto, fel erioed, mae'r Llyfrgell a'r Archif yn ymwybodol o hyn ac yn ceisio ymateb yn briodol.**

**Ac rwy'n arbennig o falch fod yr Archif, ddeugain mlynedd yn ddiweddarach, yn parhau i ffynnu dan arweiniad Rob Philips a bod rhai ohonom, sy'n dal yn aelodau o'r Pwyllgor Ymgynghorol ar ôl deugain mlynedd, yn gallu edrych yn ôl ar weledigaeth sydd wedi'i gwireddu.**

*Mae Syr Deian Hopkin yn gyn Lywydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac yn Is-Ganghellor Prifysgol South Bank Llundain. Mae'n Llywydd Anrhydeddus Cymdeithas y Cymmrodorion ac mae ganddo PhD mewn Hanes o Brifysgol Aberystwyth. Mae wedi bod yn ymwneud â'r Archif Wleidyddol Gymreig ers ei sefydlu.*




And so it proved. Gwyn Jenkins, the former head of Manuscripts and chair of that first committee, has given an excellent account of the evolution of the Archive over its first thirty years (*Manifesto*, Issue 44, 2013). At the outset, however, it was clear that the boundaries for collecting material should be as broad as possible. Soon after the internal committee was established, a General Election was called, and this presented the first real opportunity and challenge for the nascent Archive. A wide net was cast, and a notable innovation was the establishment of a national network of volunteers to collect campaign materials in every Welsh constituency while media companies were contacted to deposit interview tapes. Early on, moreover, it also became clear that the records of campaigning organisations and pressure groups were a vitally important historical record, so often overlooked.

The list of archives collected over the subsequent four decades are eloquent testimony to the success of the Archive. Successive issues of the Newsletter, which itself has evolved from its first simple issue in 1984/5 into a very attractive annual publication, demonstrate the range, depth and quality of the material which has been collected and preserved, from the records of the main political parties in Wales and their constituency branches to personal archives of a very large number of Welsh MPs and notable public figures, something one suspects which might not have happened otherwise.

From early on, the Archive staff have been strongly supported by enthusiastic members of the representative Advisory Committee, established by the Library's Board of Trustees, and drawn from across the political spectrum and including politicians, academics and journalists sitting side-by-side with Library staff. The first meeting of the Committee was held in April 1984 and the members proved to be an invaluable source of advice, often enthusiastically bringing collections of material to meetings, directing the staff of the Archive to material of interest, or making representations to constituencies and local parties on behalf of the Library. And it was at the Committee that the idea of an Annual Lecture was proposed which, from 1987 has been a key focus of the Archive, enabling distinguished politicians and academics to reflect on their careers in a public setting.

It is also a source of great pleasure that staff of the Archive over the years have themselves contributed greatly to our understanding of Welsh politics. Beti Jones' publications include an invaluable handbook of Welsh electoral statistics while John Graham Jones has published innumerable articles on Welsh political history. Gwyn Jenkins is, of course, a notable author of Welsh history and biography, while the very first research assistant at the Archive, Paul O'Leary, eventually became the Sir John Williams Professor of Welsh History at Aberystwyth University and gave the Archive's annual lecture in 2021.

Over the last few years new challenges have appeared, of course, not least the advent of social media and the gradual disappearance of the older forms of record-keeping, hand-written correspondence, or the traditional letter. Yet, as always, the Library and the Archive are alive to this and are seeking to respond accordingly.

And I am particularly glad that, forty years on, the Archive continues to thrive under the guidance of Rob Philips and that some of us, still members of the Advisory Committee after forty years, can reflect on a vision achieved.

*Sir Deian Hopkin is former President of the National Library of Wales and Vice Chancellor of London South Bank University. He is President of The Honourable Society of Cymmrodorion and holds a PhD in History from Aberystwyth University. He has been involved with the* Welsh Political Archive since its inception.



## Darlith Flynyddol yr Archif Wleidyddol Gymreig

**22.11.2023, 6:30pm**
**Ysgol Newyddiaduraeth, y Cyfryngau a Diwylliant (JOMEC) & ar-lein**
**Dau Sgwâr Canolog,**
**Sgwâr Canolog,**
**Caerdydd,**
**CF10 1FS**
**Yr Athro Laura McAllister.**

**Ymunwch â ni ar gyfer Darlith Flynyddol yr Archif Wleidyddol Gymreig 2023 wedi'i thraddodi gan yr academydd nodedig, y sylwebydd gwleidyddol a'r pêl-droediwr rhyngwladol, yr Athro Laura McAllister.**

**www.llyfrgell.cymru/digwyddiadau**
**@LlGCymru**

## The Welsh Political Archive Annual Lecture

22.11.2023, 6:30pm
School of Journalism, Media and Culture (JOMEC) & online
Two Central Square,
Central Square,
Cardiff,
CF10 1FS
Prof. Laura McAllister.

Join us for the 2023 Welsh Political Archive Annual Lecture by distinguished academic, political commentator and Welsh international footballer, Prof. Laura McAllister.

www.library.wales/events
@NLWales

MANIFFESTO
MANIFESTO
54

# NEWYDDION O LYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
# NEWS FROM THE NATIONAL LIBRARY OF WALES


Miidong Daloeng

## Dadgoloneiddio yn yr Archifau

*gan Miidong Daloeng*

**Mae'n hen bryd gwneud gwaith dadgoloneiddio mewn archifau. Ac efallai ei bod hi'n hen bryd ei wneud ond mae'r gwaith o ddiffinio safbwynt y Llyfrgell ar gynwysoldeb ac amrywiaeth yn amserol. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r byd wedi dysgu gwerthfawrogi amrywiaeth fel arf hanfodol ar gyfer twf a ffyniant yn y gymdeithas.**

**Mae'r Ymerodraeth Brydeinig yn un a oedd yn ymestyn ar draws gwahanol genhedloedd ac a barhaodd am flynyddoedd lawer. Mae ei hetifeddiaeth yn dal yn amlwg mewn llawer o sefydliadau dysg, ymchwil a threftadaeth gan gynnwys Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Felly, pan sonnir am y term dadgoloneiddio, mae archifwyr yn aml yn wynebu cwestiynau fel "ble rydyn ni'n dechrau?", "beth ddylen ni ei wneud?" a "sut ydyn ni'n gwneud hynny?". Mae dadgoloneiddio mewn archifau yn ymwneud â dod o hyd i fylchau yn ein casgliad, ymdrin â thermau amhriodol a ddefnyddiwyd yn flaenorol wrth gatalogio, annog defnyddio adnoddau archifol a phartneru â chymunedau amrywiol sydd wedi'u tangynrychioli.**

**Fel pob prosiect, mae ymchwil, trafodaeth a myfyrio dwfn yn rhan greiddiol ohono. Mae'n broses raddol sy'n gofyn am amynedd ac ymroddiad. Ers dechrau fy rôl rwyf wedi cychwyn ar nifer o brosiectau gan gynnwys creu Calendr Amrywiaeth, arddangosfa ar gyfer Mis Hanes Pobl Dduon ym mis Hydref a chydweithio â chymunedau sydd wedi'u tangynrychioli yng Nghymru.**

**Mae'r Calendr Amrywiaeth yn adnodd a gynhelir ar wefan y Llyfrgell. Mae'n cynnwys cyfuniad o wyliau crefyddol yn ogystal â digwyddiadau sy'n ymwneud â diwylliant, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a dyddiadau allweddol, ynghyd â dolenni i eitemau perthnasol yng nghasgliadau'r Llyfrgell. Bydd yn adnodd i dynnu sylw staff y Llyfrgell a darllenwyr at ddeunydd ac i gefnogi allgymorth addysgol. Unwaith y caiff y calendr ei lansio byddwn yn gwerthuso'r adborth ac yn nodi ac yn llenwi unrhyw fylchau.**

**Fy mhrif nod yw sicrhau bod y prosiectau rwy'n ymgymryd â nhw fel rhan o fy rôl yn cael eu teilwra'n benodol i Gymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru a'u bod yn cael effaith ac yn gynaliadwy.**

## Decolonisation in the Archives

*by Miidong Daloeng*

Decolonisation in archives is long overdue. Overdue the work may be but the work to define the Library's stand on inclusivity and diversity is timely. In recent years the world has gained appreciation for diversity as an essential tool for the growth and prosperity in society.

The British Empire is one that spanned across various nations and lasted for many years. Its legacy is still clear in many institutions of learning, research and heritage including the National Library of Wales. Thus, when the term decolonisation is mentioned, archivists are often confronted with questions such as "where do we begin?", "what should we do?" and "how do we do it?". Decolonisation in archives is concerned with finding the gaps in our collection, addressing inappropriate terms that have been previously used in cataloguing, encouraging the use of archive resources and partnering with various communities who have been under-represented.

Like every project, this is one of research, discussion and deep reflection. It is a gradual process that requires patience and dedication. Since the commencement of my role I have embarked on several projects including creating a Diversity Calendar, an exhibition for Black History Month in October and collaboration with under-represented communities in Wales.

The Diversity Calendar is a resource hosted on the Library's website. It includes a combination of religious festivals as well as cultural, equality, diversity and inclusion related events and key dates, along with links to relevant items in the Library's collections. It will serve as a resource to signpost material for Library staff, readers and to support educational outreach. Once the calendar is launched we will evaluate feedback and identify and fill any gaps.

My main aim is to ensure that the projects I undertake as part of my role are specifically tailored to Wales and the National Library of Wales and are both impactful and sustainable.

***Miidong Daloeng yw'r Swyddog Dadgoloneiddio Archifau a dechreuodd weithio ar brosiect 2 flynedd yn y Llyfrgell ym mis Ionawr 2023. Mae ganddi radd ôl-raddedig mewn Rheoli Gwybodaeth Ddigidol a'r Cyfryngau (Archifau) o Brifysgol Aberystwyth ac mae ganddi dros bum mlynedd o brofiad yn gweithio yn sefydliadau dysgu, ymchwil a chyllid.***

*Miidong Daloeng is the Archives Decolonisation Officer and began work on a 2 year project at the Library in January 2023. She has a postgraduate degree in Digital Information and Media Management (Archives) from Aberystwyth University and has had over five years' experience working in institutes of learning, research and finance.*







Lansio Archif Ddarlledu Cymru / Launch of the Wales Broadcast Archive

## Archif Ddarlledu Cymru

**Ddydd Iau 16 Mawrth 2023 bu'r Llyfrgell yn dathlu agoriad Canolfan Archif Ddarlledu Cymru, sydd wedi sicrhau bod hanner miliwn o glipiau o hanes teledu a radio Cymru ar gael i'r cyhoedd. Dyma'r archif ddarlledu genedlaethol gyntaf yn y Deyrnas Unedig, ac mae'n un o'r archifau darlledu rhwyddaf i'w defnyddio yn Ewrop, ac sy'n trawsnewid mynediad cyhoeddus i ganrif o hanes darlledu Cymru gyda ffilm, fideo a sain yn y Gymraeg a'r Saesneg wedi'u digido yn barod i'w darganfod.**

**Gall ymwelwyr chwilio am recordiadau sain o radio'r BBC yng Nghymru o'r 1930au ymlaen, darllediadau teledu gan y BBC a darlledwyr masnachol yng Nghymru gan gynnwys HTV Cymru ac ITV Cymru Wales o'r 1950au ymlaen ac o 1982, holl raglenni S4C, y sianel deledu Gymraeg gyntaf. Mae'r rhain yn cynnwys adegau hynod arwyddocaol yn hanes Cymru fel boddi Tryweryn, trychineb Aber-fan, streiciau'r Glowyr ac agor y Senedd. Cynhwysir hefyd glipiau sy'n ymdrin â phob agwedd ar fywyd Cymru, o ddarllediadau helaeth o chwaraeon Cymru ers yr 1940au i adloniant a drama gan gynnwys opera sebon hiraf y BBC – *Pobol y Cwm* – a ddarlledwyd gyntaf yn 1974. Bydd y gwasanaeth allweddol yn cael ei ddarparu drwy derfynellau a fydd yn rhoi mynediad digynsail i'r cyhoedd ac academyddion i ymchwilio i gasgliad helaeth o ddeunydd digidol o dreftadaeth glyweledol Cymru.**

**Mae Canolfan Archif Ddarlledu Cymru hefyd yn cynnig arddangosfa ryngweithiol, gan ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf, a fydd yn newid yn rheolaidd. Mae hyn yn cynnwys lolfa sain a fideo sy'n gweithredu fel silffoedd llyfrau clyweledol ar gyfer pori achlysurol.**

**Bydd Archif Ddarlledu Cymru yn cael ei chadw yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth, a bydd 13 o 'Gorneli Clip' ledled Cymru yn darparu mynediad lleol i'r cynnwys sydd wedi'u lleoli yn:**

- **Llyfrgell Caerfyrddin**
- **Archifau Gorllewin Morgannwg**
- **Canolfan Mileniwm Cymru**
- **Canolfan Ddiwylliant Conwy**
- **Llyfrgell Glowyr De Cymru**
- **Llyfrgell Llanrwst**
- **Archifdy Caernarfon**
- **Llyfrgell Merthyr**
- **Coleg Cambria Iâl, Wrecsam**
- **Archifau Gogledd Ddwyrain Cymru, Rhuthun**
- **Archifau Ynys Môn**
- **Archifau Morgannwg**
- **Archifau Sir Benfro**

## Wales Broadcast Archive

On Thursday 16 March 2023 the Library celebrated the opening of the Wales Broadcast Archive Centre, with half a million clips from the history of Welsh television and radio available to the public. It is the first national broadcast archive in the United Kingdom, and one of the most usable broadcast archives in Europe, transforming public access to a century of Welsh broadcast history with film, video and audio in both Welsh and English digitised for discovery.

Visitors can search sound recordings of BBC radio in Wales from the 1930s onwards, television broadcasts by the BBC and commercial broadcasters in Wales including HTV Wales and ITV Cymru Wales from the 1950s onwards and from 1982, all the programmes of S4C, the first Welsh language TV channel. These include hugely significant moments in Welsh history such as the drowning of Tryweryn, the Aber-fan disaster, the Miners' strikes and the opening of the Senedd. Also included are clips that cover all aspects of Welsh life, from extensive coverage of Welsh sport since the 1940s to entertainment and drama including the BBC's longest running soap opera – *Pobol y Cwm* - which first aired in 1974. The key service will be delivered through terminals which will enable unprecedented access for the public and academics to research a vast collection of digitised material from Wales' audio-visual heritage.

The Wales Broadcast Archive Centre also offers an interactive exhibition, using cutting edge technology, that will change regularly. This includes an audio and video lounge that function as audio-visual bookshelves for casual browsing.

While the Wales Broadcast Archive will be housed at The National Library of Wales in Aberystwyth, there will be 13 'Clip Corners' across Wales providing local access to the content located at:

- Carmarthen Library
- West Glamorgan Archives
- Wales Millennium Centre
- Conwy Culture Centre
- South Wales Miners' Library
- Llanrwst Library
- Caernarfon Record Office
- Merthyr Library
- Coleg Cambria Yale, Wrexham
- North East Wales Archives, Ruthin
- Anglesey Archives
- Glamorgan Archives
- Pembrokeshire Archives

**MANIFFESTO**
MANIFESTO
54

# LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES

Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3BU

t: 01970 632 800
f: 01970 615 709
post@llyfrgell.cymru

Oriau Agor Cyffredinol/
General Opening Hours

Dydd Llun – Dydd Gwener/
Monday – Friday
09:30 – 18:00

Dydd Sadwrn/Saturday
09:30 – 17:00

# YR ARCHIF WLEIDYDDOL GYMREIG
THE WELSH POLITICAL ARCHIVE

Cyhoeddir Cylchlythyr yr Archif Wleidyddol Gymreig unwaith y flwyddyn i dynnu sylw at gasgliadau newydd a gwaith yr archif ac mae'n cael ei ddosbarthu i newyddiadurwyr, haneswyr, academyddion, gwleidyddion ac eraill sydd â diddordeb yn hanes a gwleidyddiaeth Cymru. Os hoffech dderbyn copi, rhowch wybod i ni drwy'r manylion cyswllt arferol.

Mae ôl-rifynnau o'r cylchlythyr ar gael ar dudalennau'r Archif Wleidyddol Gymreig ar wefan Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

www.llyfrgell.cymru/archifwleidyddolgymreig

@AWGymreig

The Welsh Political Archive Newsletter is produced annually to highlight new collections and the work of the archive and is circulated to journalists, historians, academics, politicians and others who are interested in the history and politics of Wales. If you would like to receive a copy, please let us know through the usual contact details.

Back issues of the newsletter are available on the Welsh Political Archive pages of the National Library of Wales website.

www.library.wales/welshpoliticalarchive

@WelshPolArch

**Fersiwn Print** | Print Version ISSN 2977-2540
**Fersiwn digidol** | Digtal version ISSN 2977-2559

LLGC NLW LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES
Archif Wleidyddol Gymreig
Welsh Political Archive

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government